

O'R CYNRADD
I'R UWCHRADD
– BARN Y PENNAETH

Owain Gethin
Davies
Ysgol Dyffryn
Conwy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Fel pennaeth newydd, ers mis Medi 2020, ar Ysgol Dyffryn Conwy yn Llanrwst mae Owain Gethin Davies wedi gweld y budd eisoes o'r cynllun pontio cynradd i uwchradd ac am annog athrawon eraill i ystyried gwneud cais.

Heb os mae'n teimlo fod yr ysgol wedi elwa o gael gwaed newydd o'r sector cynradd.

"Yr hyn sydd yn braf gyda'r cynllun hwn yw bod gan yr unigolyn brofiad addysgu eisoes sydd mor werthfawr ond yr hyn mae nhw'n ei gynnig yw perspectif newydd. Mae cael rhywun sydd wedi arbenigo yn y maes cynradd ac yn deall y gweithdrefnau hynny o fantais i ni pan yn ystyried trosglwyddiad disgyblion o'r 14 ysgol gynradd sydd yn ein bwydo.

"Mae ganddyn nhw hefyd y gallu i addysgu mwy nag un pwnc sydd yn hynod fanteisiol yn enwedig o gofio anghenion cwricwlwm newydd Cymru."

Felly mae budd naturiol i'r ysgol, ond mae budd sylweddol i'r unigolyn hefyd yn ôl Gethin.

"I gychwyn rwy'n teimlo fod unrhyw brofiadau newydd yn ein gyrfaoedd o fudd i ni – rwyf i yn bersonol wedi cael profi secondiadau sydd wedi gwella fy sgiliau a chyfoethogi fy ngwybodaeth ac mae'r cynllun hwn yn cynnig rhywbeth tebyg.

"Mae'r diwylliant uwchradd yn dra gwahanol i'r cynradd – mae'r ysgolion cynradd yn ein hardal yn weddol fach ac mae dod i safle gyda dros 600 o blant yn gofyn am addasu rhywfaint ac o ganlyniad mae'r disgwyliadau yn amrywio.

"Ond ry' ni'n cynnig cefnogaeth gyson ar hyd y daith, mentor proffesiynol wrth law i gynorthwyo a chyfarfodydd wythnosol i wyntyllu unrhyw faterion. Ry' ni hefyd yn cymryd ein hamser i ddatblygu eu hamserlen i ymateb i'w gofynion fel bod popeth yn datblygu'n raddol ac mae hynny yn gweithio'n dda i bawb."

A beth fyddai cyngor Gethin i rywun sydd yn ystyried cymryd y cam?

"Ewch amdani – mae'n gyfle heb ei ail i ddatblygu'n broffesiynol gyda'r gefnogaeth addas ac rwyf i erioed wedi teimlo ei bod yn braf, ac yn bwysig, ehangu gorwelion.

"Ar lefel fwy pellgyrhaeddol mae gan Lywodraeth Cymru darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg ac mae cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg eu hiaith yn y sector uwchradd yn allweddol er mwyn cyfrannu at gyrraedd y targed hwnnw."

#AddysguCymru
addysgwyr.cymru